



At: Ofalwyr Maeth yng Nghymru

14 Mai 2018

Annwyl ofalwyr maeth,

Ac yntau'n Bythefnos Gofal Maeth, dyma fi'n ysgrifennu at holl ofalwyr maeth Cymru i ddiolch iddynt o waelod calon am eu holl waith yn cefnogi ac yn gofalu am rai o'n plant a'n pobl ifanc fwyaf agored i niwed.

Rwy wedi cyfarfod â llawer iawn o ofalwyr maeth, a bydd eu hymroddiad a'u hymrwymiad bob amser yn creu argraff ddofn arnaf. Rwy'n gwybod pa mor heriol y gall maethu bod yn aml iawn. Felly diolch o galon ichi bob un. Mae'r hyn yr ydych yn ei wneud mor bwysig i'n cymdeithas, yn enwedig y plant a'r bobl ifanc yr ydych yn gofalu amdanynt.

Rwyf hefyd wedi cael y pleser o siarad â phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal. Roeddent yn dweud pa mor gefnogol oedd eu teuluoedd maeth, a oedd nid yn unig yn darparu cartref iddynt, ond hefyd yn cynnig awyrgylch teuluol lle'r oeddent yn gallu teimlo'n ddiogel, tyfu a ffynnu. Mae eu teuluoedd maeth hefyd yn eu helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol a chyflawni uchelgais bersonol. Fe glywais gan bobl ifanc sydd wedi cael eu maethu sut yr oedd eu gofalwyr wedi eu helpu i ystyried cyfleoedd addysg bellach a chyflogaeth, neu sut yr oeddent wedi rhoi hyder iddyn nhw roi cynnig ar gyflawni uchelgais arall. Dyna dystiolaeth ragorol o waith y miloedd o ofalwyr maeth a'u teuluoedd yma yng Nghymru!

Cynhelir Pythefnos Gofal Maeth 2018 rhwng 14 a 27 Mai. Un o nodau'r Pythefnos Gofal Maeth yw codi ymwybyddiaeth o'r angen am fwy o ofalwyr maeth yng Nghymru. Y bobl orau i wneud hynny yw'r rheini sy'n ofalwyr maeth eisoes, felly hoffwn eich annog chi i gyd i wneud popeth o fewn eich gallu i ysbrydoli eraill i ystyried dilyn eich esiampl.

Mae gwefan y Rhwydwaith Maethu yn cynnig awgrymiadau a gwybodaeth ddefnyddiol i'r rheini sy'n ystyried bod yn ofalwyr maeth: <https://www.thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/could-you-foster>

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel arall, bydd eich awdurdod lleol yn gallu rhoi gwybodaeth am faethu yn eich ardal leol chi.

Diolch o galon unwaith yn rhagor, gan ddymuno Pythefnos Gofal Maeth hapus a llwyddiannus ichi i gyd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Huw Irranca-Davies', with a horizontal line underneath.

Huw Irranca-Davies AC/AM

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant
Minister for Children and Social Care